# C(5)040 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Cychwyn hyn yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol o Ddeddf y Coronafeirws 2020 ("**y Ddeddf**").

Mae rheoliad 2 yn dwyn i rym am 9 a.m. ar 27 Mawrth 2020 adran 10 o'r Ddeddf, a Rhan 1 a pharagraffau 11, 12 a 13 o Atodlen 8 iddi, fel nad yw'n ofynnol i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gydymffurfio â gofynion penodol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae Rhan 1 o Atodlen 8 yn cynnwys darpariaeth ragarweiniol ac mae paragraffau 11 a 12 yn dileu'r gofyniad bod rhaid cael o leiaf dri aelod er mwyn cyfansoddi tribiwnlys ac yn darparu y caniateir i achosion gael eu penderfynu heb wrandawiad, o dan amgylchiadau penodedig Mae paragraff 13 yn darparu y caiff Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru enwebu aelod cyfreithiol arall i weithredu fel dirprwy os nad yw Llywydd y Tribiwnlys ar gael am gyfnod dros dro

Mae rheoliad 3 yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2020 adran 15 o'r Ddeddf, a Rhan 2 o Atodlen 12 iddi, fel nad oes rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau penodol mewn perthynas â diwallu anghenion, a chynnal asesiadau, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("**Deddf 2014**"), ac i addasu dyletswyddau i ddiwallu anghenion o dan Ddeddf 2014, hyd nes bod rheoliadau mewn grym o dan adran 88 o'r Ddeddf (pŵer i atal dros dro ac adfer darpariaethau'r Ddeddf), neu nad yw'r Ddeddf mewn grym mwyach.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Rheoliadau Cychwyn hyn:

**1. Arwyddocâd y Rheoliadau Cychwyn hyn**

Er bod rheoliadau/gorchmynion cychwyn yn aml yn cael eu hystyried yn faterion technegol nad ydynt yn destun fawr o waith craffu (yn enwedig gan nad ydynt fel rheol yn cynnwys unrhyw weithdrefn ffurfiol gan y Cynulliad), rydym yn nodi pwysigrwydd penodol y Rheoliadau Cychwyn hyn.

Pan sefydlwyd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a phan basiodd y Cynulliad Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, byddai'r newidiadau sy'n cael eu cychwyn gan y Rheoliadau Cychwyn hyn wedi bod yn annirnadwy.

Disgwyliwn i Lywodraeth Cymru:

- gynnal adolygiad manwl parhaus o'r angen i'r newidiadau hyn aros mewn grym, a
- adrodd i'r Cynulliad am unrhyw newidiadau pellach.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Ebrill 2020**